# GOLWG AGOS AR 'FERN HILL' – Y PENILLION CYNTAF

Mewn grwpiau, darllenwch benillion cyntaf 'Fern Hill' gyferbyn a phenderfynwch beth oedd atgofion Dylan Thomas am ei wyliau haf yno, yn eich barn chi. Defnyddiwch y penawdau i'ch helpu.

Pan o'n i'n rhwydd o ifanc dan ganghennau'r afallen
ger y tŷ seinber ac mor hapus â glesni'r borfa,
a'r nos uwchben y pant yn serennog,
amser a'm goddefodd i gyfarch a dringo'n euraid
yn anterth dyddiau ei lygaid,
ac mor anrhydeddus oeddwn ymhlith wagenni
fel y'm gwnaed yn dywysog y trefi afalau,
ac un tro dan amser, trefnais, ag urddas, i'r coed deiliog
ddiferu llygaid y dydd a barlys
i afonydd y goleuni disymwth.

A phan o'n i'n laslanc ysgafnfryd, yn rhywun ymhlith ysguboriau
o gylch y clos dedwydd ac yn moli cartrefoldeb y ffarm,
dan yr haul nad yw'n ifanc ond unwaith,
amser a'm goddefodd i chwarae
a'm heuro yn nhrugaredd ei drugareddau,
a minnau newydd fy mathu, rown i'n heliwr a chowman,
clywn gydganu'r lloi â'm corn a chyfarth cadnoid y bryniau
yn iasoer glir,
ac atseiniai'r Saboth dioglyd
yng ngraean y nentydd cysegredig.

| BYD NATUR | BYWYD Y FFARM | AMSER | EI DEIMLADAU |
|---|---|---|---|
| | | | |